

## Crynodeb Annhechnegol - Lanfa

Mae *Anglesey Aluminium Metal Renewables Ltd (AAMR)* yn cynnig gwneud estyniad o 245m i lanfa Aliwminiwm Môn (AM) yn Harbwr Caergybi. Mae angen yr estyniad arfaethedig i'r lanfa i ddarparu man docio ar gyfer llongau sy'n cario deunyddiau crai sy'n gysylltiedig â mwyndoddi aliwminiwm ynghyd â thanwydd biomas, sef sglodion coed, ar gyfer y safle Gwaith Ynni Adnewyddadwy (GYA) yn Safle AM ym Mhenrhos, Caergybi. Bydd angen cynnal gwaith carthu cyfalaf ar gyfer poced angori newydd wrth ymyl yr estyniad i'r lanfa i hwyluso glanio llongau biomas.

Mae'r gwaith arfaethedig dros 2km o unrhyw safleoedd bywyd gwyllt dynodedig rhyngwladol neu genedlaethol sy'n cael eu gwarchod yn statudol, ac ni ddisgwylir iddo gael unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol arnynt. Ni ddisgwylir unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw safle *Natura 2000*. Bydd effeithiau posibl ar famaliaid môr a physgod yn cael eu lleihau trwy'r defnydd o gyfuniad o ataliadau gweledol ac acwstig, technegau cychwyn meddal a rhwystrau ffisegol, yn ogystal â defnyddio arsyllwyr ecolegol morol arbenigol. Ni ragwelir unrhyw effeithiau arwyddocaol ar gymunedau benthig. Mae AAMR yn ymrwymedig i gydymffurfio'n llawn â gofynion Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), o dan eu rhaglen ar gyfer dileu'r chwistrell fôr ymledol (hidlwr bwyd tanddwr). Yn bennaf, mae hyn yn golygu sicrhau fod cychod adeiladu a gweithredol wedi'u hardystio'n lân cyn mynd i mewn i'r harbwr; ni fydd y cynllun yn cael effaith niweidiol ar yr ymdrechion hyn. Bydd darparu tiwbiau nythu ar y lanfa bresennol a'r estyniad yn darparu cynefin ychwanegol ar gyfer adar. Yn gyffredinol, trwy ddefnyddio'r mesurau lliniaru a nodwyd, disgwylir mai effaith lled niweidiol fydd ar ecoleg yn y tymor byr a niwtral yn y tymor hir.

Disgwylir y bydd yr effeithiau ar y Dirwedd a rhai Gweledol, Archeolegol ac ar Dreftadaeth Ddiwylliannol yn effeithiau niweidiol bach i niwtral yn gyffredinol. Fodd bynnag, bydd angen rhaglen o arolygon geoffisegol o wely'r môr er mwyn cadarnhau hyn mewn perthynas ag archeoleg.

Disgwylir y bydd yr effeithiau o ran Acwsteg a Dirgryniad, Ansawdd yr Aer a Mynediad yn ddibwys gyda gweithredu mesurau lliniaru fel y nodwyd mewn Cynllun Rheoli Amgylcheddol ar gyfer Adeiladu. Ar gyfer Acwsteg a Dirgryniad, bydd y rhain yn cynnwys y defnydd o fesurau Arfer Gorau, dewis dulliau adeiladu/dymchwel yn ofalus, addysgu personél a rheoli oriau gweithio (lle y bo modd). Argymhellir hefyd y dylid ceisio caniatâd manwl i ymgymryd â gwaith adeiladu gan yr Awdurdod Lleol yn ffurf Cytundeb Adran 61 CoPA. Ar gyfer Ansawdd Aer, bydd y rhain yn cynnwys mesurau Arfer Gorau, codi ffensys, yn enwedig ar gyfer sypynnu concridd, gorchuddio pentyrrau, sgrinio cerbydau a'r defnydd o ddŵr i atal llwch. Ni ragwelir unrhyw effeithiau arwyddocaol ar gyfer Acwsteg a Dirgryniad nac Ansawdd Aer yn ystod y cyfnod adeiladu. Bydd angen cyfathrebu ac ymgynghori parhaus gyda defnyddwyr y Marina a defnyddwyr eraill yr Harbwr i sicrhau fod mynediad yn bosibl pan fo angen.

Nodwyd effeithiau arwyddocaol posibl ar Fordwyaeth yn ystod y cyfnodau Adeiladu a Gweithredol. Yn ystod y Cyfnod Adeiladu, gall presenoldeb ysgraff wedi'i angori atal llongau mordeithio rhag docio yn y lanfa bresennol; yn ogystal, gall storio deunyddiau adeiladu ar y lanfa bresennol beri anawsterau ar gyfer y defnydd o'r lanfa ar gyfer llongau mordeithio a gweithgareddau adeiladu; ystyrir mai materion ag iddynt effaith niweidiol bach yw'r ddau fater hwn os cynhelir trafodaethau rhwng AAMR a defnyddwyr eraill y lanfa i gytuno ar amseriadau a mesurau lliniaru i leihau'r effeithiau dros dro hyn. Yn ystod y Cyfnod Gweithredol, lleihad ym maint y sianel y gellir ei mordwyo i'r Harbwr Newydd a'r Marina o'r 400m presennol i 290m (lleiafswm); gostyngiad o ran gweledd sianel fordwyo'r Harbwr Newydd; ac ystyrir fod gan yr angen am angorfa barhaol ar gyfer y ddau dynfad hefyd effeithiau niweidiol bach y gellir eu rheoli.

Daeth Astudiaeth Effaith Carthu ar effeithiau posibl symud gwaddod ar bysgota masnachol, y blaendraeth a bioamrywiaeth, i'r casgliad y byddai effaith dibwys gan fod unrhyw halogyddion yn y gwaddod wedi glynu'n glòs iddo ac ym mhobman, a bydd y gwaddod yn gwaelodi'n gyflym o fewn y man carthu (y boced angori newydd a'r sianel ddynesu), ac felly mae effeithiau amgylcheddol arwyddocaol yn annhebygol iawn.